
# PARTNERIAETH RANBARTHOL GORLLEWIN MORGANNWG

Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg | West Glamorgan Regional Partnership

# CYLCHLYTHYR

MEHEFIN 2023



## YN Y RHIFYN HWN:


FFORWM POBL CYNTAF

CROESO I'R TÎM

HENEIDDIO'N DDA YN ABERTAWE

DATHLU EIN GWIRFODDOLWYR

MAE EICH LLAIS YN CYFRIF

LLWYDDIANT GARTREF YN GYNTAF

GOFALWYR YN RHOI GWELEDIGAETH AR WAITH


## Y FFORWM POBL CYNTAF YN LLWYDDIANT!




Mae'n deg dweud ein bod wedi cael dechrau prysur i dymor y gwanwyn/haf yma ym Mhencadlys Gorllewin Morgannwg!

Yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, rydym wedi gweithio'n agos gyda sefydliadau partner a chynrychiolwyr gwirfoddolwyr i gynnal dau ddigwyddiad eithaf pwysig, ac mae'n bleser gennym ddweud yr aeth popeth rhagddo'n rhwydd ac mae'r adborth a gawsom gan fynychwyr wedi bod yn wych!

Ein digwyddiad mawr cyntaf oedd lansio'n fforwm newydd sbon sef Fforwm Pobl Gorllewin Morgannwg ar 18 Ebrill. Ymunodd dros 200 o bobl â ni yn stadiwm Swansea.com am raglen llawn dop o berfformiadau, gweithdai, cyflwyniadau a stondinau gwybodaeth.

Dyma oedd ein digwyddiad mawr cyntaf ers 2019, ac roedd yn amlwg yr oeddem i gyd yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddod ynghyd.

### NODAU'R DIWRNOD

Digwyddiad 'aml-bwrpas' oedd hwn gan ein bod am amlygu a dathlu peth o'r gwaith anhygoel sy'n cael ei wneud gan sefydliadau yn ein rhanbarth, wrth ganolbwyntio hefyd ar y dyfodol ac ystyried sut byddwn yn ehangu'n rhwydwaith o leisiau.

Parhewch i ddarllen am grynhoad o'r prif weithgareddau a pherfformiadau.

# FFORWM POBL




**Parhad...**

Oherwydd agenda amrywiol y digwyddiad, cafwyd diwrnod difyr a llawn gwybodaeth, gyda chyfraniadau gan ofalwyr di-dâl, ein grŵp cyd-gynhyrchu rhanbarthol a Llais (ardal Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe) i enwi rhai yn unig.
Yn ystod sesiwn y bore, lansiwyd y Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol yn ffurfiol a oedd yn cynnwys cyflwyniad gan rai o'r gofalwyr a fu'n ymwneud â datblygu'r Strategaeth newydd, yn ogystal â stori ddigidol yn amlinellu'r heriau y mae gofalwyr yn eu hwynebu a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol.

## GWEITHDAU A PHERFFORMIADAU

Un o'n prif amcanion wrth gynllunio'r digwyddiad oedd sicrhau bod cyfranogwyr yn cael y cyfle i rannu eu barn a'u profiadau ar faterion yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol a oedd o bwys iddyn nhw drwy ein sesiynau gweithdy.

Roedd y rhain yn canolbwyntio ar bynciau fel dementia, atebion llety ac iechyd meddwl (a oedd yn cynnwys ymddangosiad gan westeion arbennig sef cŵn therapi Cyngor Abertawe - yr oedd y dorf wedi dwlu arnyn nhw!)





**Sêr y sioe 'Wellbeing Walter'a 'Gorgeous George'!**





Roedd uchafbwyntiau eraill yn cynnwys perfformiadau dyrchafol gan gôr Musical Memories (yn y llun) sy'n cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia, a grŵp drymio gwych y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd.
Mae'r ddwy fenter yn derbyn cyllid drwy Orllewin Morgannwg ac yn gwneud gwahaniaeth arwyddocaol a sylweddol i fywydau'r rheini sy'n defnyddio'u gwasanaethau.

Canmolwyd ymdrechion pawb a fu'n rhan o'r digwyddiad gan Emma Woollett, Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg, a ddywedodd:

*"Rhoddodd y digwyddiad gyfle i ni siarad â'n gilydd a chlywed am yr holl waith gwych sy'n cael ei wneud o fewn lle'r bartneriaeth. Rhoddodd fan cychwyn cadarn i ni hefyd ar gyfer ein Fforwm Pobl newydd, a bydd yr adborth gan fynychwyr yn helpu i lunio'n hymagwedd at ymgysylltu parhaus o hyn ymlaen.*

*Hoffwn ddweud diolch yn fawr iawn i'r staff, sefydliadau partner a gwirfoddolwyr a wnaeth ymdrech enfawr i sicrhau bod y diwrnod yn llwyddiant".*

## CROESO I'R TÎM



Yn ein cylchlythyr blaenorol, fe gynhwysom eitem ar gyd-gynhyrchu a sut mae ei egwyddorion wedi'u cymhwyso i'r broses recriwtio ar gyfer ein Cydlynydd Cynrychiolwyr Gwirfoddolwyr.

Rydym wrth ein boddau i gyhoeddi mai'r ymgeisydd llwyddiannus oedd **Lydia Harley** (yn y llun) a ddechreuodd yn y swydd yn gynharach yn y gwanwyn ac a aeth ati'n frwd i helpu i gefnogi'r grŵp cydgynyrchu i baratoi ar gyfer eu cyflwyniad yn ein digwyddiad Fforwm Pobl!.

Mae Lydia'n ymuno â ni o'r Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai, lle treuliodd tair blynedd fel Rheolwr Gwirfoddoli. Cyn hynny, roedd hi'n Weithiwr Cymorth i Deuluoedd yn CEF Abertawe, yn cefnogi teuluoedd yr oedd ganddynt anwylyn yn y carchar.

Mae gan Lydia radd anrhydedd dosbarth cyntaf yn Nhroseddeg a Pholisi Cymdeithasol, a gradd meistr mewn Ymchwil Gymdeithasol. Yn ei hamser rhydd, mae'n mwynhau cerdded, rhedeg a beicio ar hyd morlin hardd ein rhanbarth.

Mae eisoes wedi sefydlu perthnasoedd gwaith gwych â chynrychiolwyr a chydweithwyr gwirfoddoli ar draws y sector, ac edrychwn ymlaen at weld y cynnydd cadarnhaol y mae Lydia yn ei wneud wrth iddi barhau i ymgartrefu yn ei rôl.

## HENEIDDIO'N DDA YN ABERTAWE



Efallai eich bod wedi gweld menter '**Heneiddio'n Dda**' Cyngor Abertawe'n cyrraedd y tudalennau blaen yn ddiweddar gan fod ei rhaglen o weithgareddau a grwpiau cymdeithasol wedi dod mor boblogaidd, maent wedi denu sylw marchnadoedd newyddion ar draws Cymru!

Sefydlwyd 'Heneiddio'n Dda' yn 2021 gan dîm Partneriaeth a Chyfranogaeth y cyngor i gefnogi preswylwyr 50 oed ac yn hŷn "i fod yn iach, i fod yn ddiogel y tu mewn a thu allan i'r cartref, i fwynhau bywyd, i gael llais ac i wneud cyfraniad cadarnhaol at helpu i wella Abertawe."




## GWEITHIO'N GYNHYRCHIOL MEWN PARTNERIAETH

Rydym wedi cael sawl cyfle i weithio mewn partneriaeth â 'Heneiddio'n Dda' dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys cynnal gweithgareddau ymgysylltu yn eu grwpiau cymdeithasol wythnosol (llun uchod), a mynd i'w Gŵyl Traeth Heneiddio'n Dda gyntaf erioed gyda'n stondin wybodaeth.

Mae wedi bod yn wych gweld y fenter yn datblygu - ni allwn aros i gydweithio eto yng **Ngŵyl Traeth** eleni ar **12 Awst**!

Am ragor o wybodaeth ynghylch ble a phryd y gallwch gymryd rhan mewn gweithgareddau 'Heneiddio'n Dda', ewch i: www.abertawe.gov.uk/gweithgareddauheneiddiondda

Hefyd, cymerwch gip ar eu blog misol newydd sy'n cynnwys y diweddaraf am weithgareddau a chyfweliadau gydag aelodau o'r gymuned: www.abertawe.gov.uk/blogheneiddiondda

# DATHLU EIN GWIRFODDOLWYR



GWESTY'R TOWERS, JERSEY MARINE

Mae wedi bod yn braf gweld gwirfoddoli'n cael yr holl sylw dros yr ychydig fisoedd diwethaf gyda'r 'Help Llaw Mawr' ar 8 Mai ac yna 'Wythnos Gwirfoddolwyr' o 1 i 7 Mehefin.

Yma yng Ngorllewin Morgannwg rydym wedi manteisio ar y cyfleoedd hyn i amlygu'r cyfraniadau gwych y mae gwirfoddolwyr yn eu gwneud ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn ein rhanbarth. Efallai eich bod wedi gweld ein hastudiaethau achos ar ffurf fideo, lle mae gwirfoddolwyr o amrywiaeth o sefydliadau'n rhannu eu profiadau ac yn disgrifio pam y mae gwirfoddoli wedi bod o fudd iddyn nhw. Maent i gyd ar gael i'w gwylio ar ein tudalen Vimeo - cliciwch ar y llun isod neu ewch i www.vimeo.com/westglamorgan




Yn ogystal â'r uchod, roedd ein digwyddiad Fforwm Pobl ym mis Ebrill yn cynnwys stondin wybodaeth a oedd yn arbennig ar gyfer gwirfoddoli, ac roedd hefyd yn darparu llwyfan i'n cynrychiolwyr gwirfoddoli gyflwyno'r cynnydd gwych a wnaed ganddynt dros y flwyddyn ddiwethaf.

Rydym hefyd yn falch iawn o gael ein hadnabod ar raddfa genedlaethol ar ôl i Fiona Liddell (Rheolwr Helplu Cymru yng Nghyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru) sôn am ein gwaith o ddatblygu ymagwedd ranbarthol at wirfoddoli yn ei blog: https://wcva.cymru/views/a-regional-approach-to-developing-volunteering/

Mae'r blog yn cyfeirio at y gwaith gwych a wnaed gan Julia Manser a Gemma Richards, a chafodd eu secondio o'r ddau Gyngor Gwirfoddol Sirol yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot i gydlynu'r fenter hon.

## DWEUD 'DIOLCH'

**Wythnos Gwirfoddolwyr** oedd y cyfle perffaith i ddod â'n cynrychiolwyr gwirfoddoli rhanbarthol ynghyd ar gyfer bore hamddenol llawn coffi, teisen a sgwrsio (llun uchod).

Gwnaethom gwrdd yng ngwesty'r Towers, Jersey Marine a threulio ychydig o oriau braf yn myfyrio ar y flwyddyn ddiwethaf, a dathlu cyflawniadau'r rheini sydd wedi rhoi o'u hamser ac wedi dangos brwdfrydedd at gefnogi'r rhaglen waith ranbarthol.

**Ewch i'n gwefan i ddod o hyd i'r holl adnoddau gwych a gynhyrchwyd fel rhan o brosiect Cymorth Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg**

**www.westglamorgan.org.uk/cggm**

# MAE EICH LLAIS YN CYFRIF

Ar y pedwerydd o fis Mai, cynhaliwyd yr ail o'n digwyddiadau mawr y tymor wrth i ni ddychwelyd i stadiwm Swansea.com ar gyfer '**Mae Eich Llais yn Cyfrif**'. Menter ar y cyd oedd hon dan arweiniad Gorllewin Morgannwg ochr yn ochr â **Sefydliad yr Elyrch** ac **Interplay**.

Ei nodau oedd lansio'r **Fforwm Cyswllt Anabledd Dysgu** newydd, darparu cyfle i fynychwyr gymryd rhan mewn gweithdai a oedd yn canolbwyntio ar faterion iechyd a gofal cymdeithasol sydd o bwys iddynt a chefnogi datblygu'r **Strategaeth Anabledd Dysgu Ranbarthol**.




Dechreuodd y diwrnod gydag araith agoriadol gan Gyfarwyddwr Rhaglenni Gorllewin Morgannwg, Kelly Gillings, ac ar ôl hynny, cafodd bawb gyfle i gael coffi a chipolwg ar yr ystod o stondinau gwybodaeth lliwgar.

Yna rhoddodd Amy Hawkins, Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion Cyngor Abertawe, gyflwyniad ar y weledigaeth ar gyfer Bwrdd Anabledd Dysgu Gorllewin Morgannwg a'r Strategaeth Anabledd Dysgu Ranbarthol. Dilynwyd Amy gan Lloyd Thomas, Rheolwr Anabledd Sefydliad yr Elyrch, a roddodd gyflwyniad ar y Fforwm Cyswllt Anabledd Dysgu newydd sbon. Bydd y fenter gyffrous hon yn rhoi cyfle i bobl ag anabledd dysgu ddweud eu dweud.



Cafodd fynychwyr gyfle hefyd i weld fideos o astudiaethau achos a gynhyrchwyd gan ein tîm cyfathrebu yng Ngorllewin Morgannwg sy'n dangos gwaith gwych tri sefydliad sef **Interplay**, **Cefnogaeth Iechyd Meddwl BAME** ac **Awel Aman Tawe/Taith Co-op** (mae'r rhain ar gael i'w gweld yn awr ar ein tudalen Vimeo - https://vimeo.com/showcase/10491258

Dilynwyd hyn gan ddwy sesiwn weithdy a roddodd gyfle i bawb rannu'i farn ar gyfres o themâu allweddol a nodwyd gan bobl ag Anabledd Dysgu ar gamau cynnar datblygu'r Strategaeth.

## SESIWN DDAWNS!

Un o uchafbwyntiau'r digwyddiad oedd ymddangosiad arbennig gan **Hwb CanDo** (llun uchod), yr oedd eu perfformiad Makaton hynod egnïol o 'Livin' on a Prayer' gan Bon Jovi wedi ysgogi pawb yn yr ystafell i ddawnsio!

Hoffai trefnwyr y digwyddiad ddweud diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n ymwneud â'r trefniadau am sicrhau ei fod yn llwyddiant ysgubol. Mae adborth gan fynychwyr wedi bod yn ardderchog, ac mae cyfraniadau pobl ar y diwrnod wedi bod yn hynod werthfawr wrth helpu i lunio'r maes gwaith hwn wrth symud ymlaen.

**Os hoffech wybod mwy am y Fforwm Cyswllt Anabledd Dysgu newydd a sut y gallwch gymryd rhan, cysylltwch â Lloyd Thomas (ebost yw Lloyd@swansfoundation.org.uk)**

# LLWYDDIANT GARTREF YN GYNTAF




Sefydlwyd rhaglen Gartref yn Gyntaf Gorllewin Morgannwg yn 2021 gyda'r bwriad o leihau oediadau wrth ryddhau o'r ysbyty, yn ogystal â helpu i atal derbyniadau diangen. Pan gaiff rhywun ei ryddhau o'r ysbyty, mae'n tueddu i wella'n gyflymach pan fydd mewn amgylcheddau cyfarwydd. Mae Gartref yn Gyntaf yn dod ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd sy'n gweithio gydag unigolion i bennu eu hanghenion gofal a chefnogaeth a theilwra'u gwasanaethau'n unol â hyn.

Mae partneriaid wedi bod yn gweithio'n ddiflino y tu ôl i'r llenni i symleiddio'r prosesau sy'n gysylltiedig â rhyddhau o'r ysbyty, ac ar ddechrau mis Mai, lansiwyd cyfres newydd a gwell o lwybrau rhyddhau. Mae ein cydweithwyr yn y gwasanaethau digidol hefyd wedi diweddaru'r systemau a ddefnyddir i hwyluso rhyddhau o'r ysbyty, sy'n caniatáu ar gyfer cyfathrebu cyson, di-dor rhwng staff a sefydliadau.

## CEFNOGAETH RHYDDHAU

Fis diwethaf lansiwyd gwe-dudalen newydd ar ffurf cyfeiriadur â'r nod o ddarparu'r holl wybodaeth y mae ei hangen ar staff ysbyty sy'n cydlynu trefniadau rhyddhau am wasanaethau cefnogi ac adnoddau defnyddiol eraill i sicrhau bod y rheini sy'n gadael yr ysbyty'n cael y profiad gorau posib. Roedd cydweithwyr a fu'n rhan o'i datblygiad wedi ymweld â wardiau i hyrwyddo'r fenter newydd (yn y llun uchod). Mae hi wedi bod yn gyfnod o newid sylweddol ac mae mwy i'w wneud o hyd i sicrhau bod ffyrdd newydd o weithio'n cael eu rhoi ar waith yn y modd mwyaf effeithiol, ond mae ymdrechion pawb wedi bod yn wyrthiol a byddwn yn rhoi'r diweddaraf i chi ar gynnydd Gartref yn Gyntaf mewn rhifyn o'n cylchlythyr yn y dyfodol.

# GOFALWYR YN RHOI GWELEDIGAETH AR WAITH




**Ydych chi'n ofalwr di-dâl sy'n gofalu am rywun sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot neu Abertawe? Hoffech chi gael cyfle i ddweud eich dweud am sut bydd y Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol newydd yn cael ei gweithredu?**

Os felly, ymunwch â Fforwm Cyswllt Gofalwyr Gorllewin Morgannwg ar **6 Gorffennaf** (10am - 2.30pm) yn S**tadiwm Swansea.com** am sesiwn cynllunio ar gyfer gweithredu ddynodedig. Lansiwyd y Strategaeth newydd yn Fforwm Pobl Gorllewin Morgannwg nôl ym mis Ebrill, ar ôl iddi gael ei chyd-gynhyrchu gan Ofalwyr Di-dâl yn ein rhanbarth. Mae bellach yn amser i roi gweledigaeth ar waith, a phwy gwell i'n cynghori am y camau nesaf na Gofalwyr eu hunain?

Gallwch gadw lle drwy **Eventbrite**: www.eventbrite.co.uk/e/unpaid-carers-turning-vision-into-action-tickets-641261579647

**E-bost:** info@nptcvs.org.uk
**Rhif ffôn:** 01639 631 246

Am ragor o wybodaeth am Bartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg, e-bostiwch west.glamorgan@abertawe.gov.uk neu ffoniwch 01792 633 805.
Mae'r cylchlythyr hwn ar gael mewn fformatau gwahanol - cysylltwch â ni gyda manylion eich gofynion.